

Cofnodion Cyfarfod 6/3/2023

Presennol: Geraint Roberts (Cadeirydd), Clwyd Davies (is-Gadeirydd), Eleri Jones, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, W D Williams

Cynghorydd Alan Jones Evans , Cyngor Gwynedd

Lis Puw (Clerc)

Aelodau o'r cyhoedd

1. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriad Emyr Jones.
2. Gwahoddwyd Mr Julian Birley i roi cyflwyniad ar y trefniadau yn ardal Pont Mwnwgl y Llyn yn y cynllun i ehangu'r rheilffordd i dref Y Bala. Dywedodd y byddai'n cymryd 41 eiliad i'r trê'n croesi'r ffordd ar 5mya (8 trê'n y dydd ar yr adeg fwyaf prysur) ac y byddai system reolaeth traffig mewn lle a oedd yn dderbyniol i'r Adran Priffyrdd. Eglurodd hefyd sut fyddai'r trê'n yn croesi Pont Mwnwgl y Llyn a'r bont newydd. Atebodd nifer o gwestiynau treiddgar gan gynghorwyr ac aelod o'r cyhoedd, ac addawodd anfon gwybodaeth fanwl o'r astudiaethau a wnaethpwyd parthed amser croesi'r ffordd. Diolchwyd yn gynnes iddo am ei gyflwyniad.

Ar ôl iddo adael, cytunodd y Cynghorwyr fod eu pryderon am rwystr i lif traffig ar y ffordd wedi lleddfu. Mae'r tebygolrwydd y bydd rhannau helaeth o'r ffordd B4403 yn cael ei dynodi'n Glirffordd gyda'r canlyniad y bydd yn gwyrddroi'r sefyllfa o dagfeydd yn cau'r ffordd ar adegau prysur. O ystyried hyn, cytunwyd i anfon llythyr at Emyr Williams a Jonathan Cawley ym Mharc Cenedlaethol Eryri i ddatgan cefnogaeth y Cyngor i'r cynllun yn wyneb y newid tebygol yn statws y ffordd a'r sicrwydd na fyddai oedi hir oherwydd y trê'n yn croesi'r ffordd. Cytunwyd ymhellach i anfon copi at Mr Birley ac i ddiolch iddo am ddod i gyfarfod y Cyngor

3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 9/1/23.
5. Materion y Clerc:
 - i. Darllenodd y Clerc ei hymateb ar ran y Cyngor i holiadur Parc Cenedlaethol Eryri.
 - ii. Cytunodd Clwyd Davies a'r Cynghorydd Alan Jones Evans i gynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod Zoom 8/3/23 6 -8.00pm
 - iii. Cytunodd y Clerc i fynychu'r cyfarfod gyda'r heddlu ar ran y Cyngor.
 - iv. Derbyniwyd amcan bris am drwsio giât y fynwent a chytunwyd i holi ymhellach.
6. Cyngor Gwynedd: derbyniwyd Adroddiad gan y Cynghorydd Alan Jones Evans. Dywedodd iddo dderbyn gwybodaeth fod rhai tai haf yng Nghwm y Glyn yn mynd i dderbyn ffibr optig tra nad oedd hwn ar gael i drigolion. Roedd wedi ceisio ffonio BT ond heb dderbyn ateb. Mae swyddfa'r Aelod Seneddol yn edrych mewn i'r mater. Tynnwyd ei sylw at ddwy garreg yn y clawdd o dan Fryntirion sydd ar fin disgyn i'r ffordd.

Dyweddodd ei fod wedi cael gwybod fod yr Adran Gyfreithiol yn anfon y Gorchymyn Clirffordd i'r wasg ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn fuan iawn.

Oherwydd newid yn yr Adran Amgylchedd, nid oes penderfyniad wedi ei wneud hyd yn hyn ar leoliad biniau ail-gylchu sydd ar hyn o bryd ym maes parcio'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. Ceisiadau Cynllunio: Cymeradwywyd:

- i. **NP5/70/169A** Creu man llwytho i ddibenion coedwigaeth, Coed Dol Risgl, Rhosygwaliau. LL23 7ET
- ii **NP5/70/171** Lleoli 2 pod gwyliau a gosod uned trin carthion, Tir ym Maes Afallen, Rhosygwaliau, LL23 7EY

8. Ariannol:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol.
- ii. Cytunwyd i dalu cyflog y Clerc am y flwyddyn 2022-23.
- iii. Cytunwyd i dalu:
 - a. Gamlins - cofrestru'r fynwent: £353.46 (cynnwys TAW)
 - b. Aelodaeth Un Llais Cymru £49
 - c. Trwydded Zoom – traian – sef £47.96
 - d. Archwilio Cymru - £200
- iv. Cytunwyd i wneud y Cyfraniadau Cymunedol fel a ganlyn:

Neuadd	£800.00
CFFI Meirionnydd	£300.00
Eisteddfod Gylch	£50.00
Cantref	£50.00
DPJ Foundation	£50.00

9. Gohebiaeth: Llywodraeth Cymru: Nodwyd derbyn Adroddiad Blynyddol, Chwefror 2023, Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

10. Cwmni Pum Plwy Penllyn: Derbyniwyd Adroddiad y Cynrychiolwyr a soniwyd am y gwaith Llesiant sydd yn cael ei wneud

11. Arolwg o gartrefi lleol - edrychwyd ar y dogfennau a chytunwyd i gynnal cyfarfod arall ym Mai i wneud y gwaith (ac ymweld â'r fynwent?) gan wahodd eraill i helpu gyda'r cofnodi cyfrifiadurol.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 8/5/2023 (Cyfarfod Blynyddol)